

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Salwch** - Mae nifer uchel o ddisgyblion yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch - (102 ddoe a 110 heddiw) Yn sgil hyn rydym wedi derbyn y wybodaeth isod gan Awdurdod Addysg Ceredigion. Gofynnir i chwi ddilyn y canllawiau sydd yn y llythyr os gwelwch yn dda.

**Illness** - There is a high number of pupils absent from school due to illness – (102 yesterday and 110 today) In light of this we have received the following information from Ceredigion Education Department. Please follow the guidelines in the letter.

**R C Williams, Pennaeth, 29/01/2013**

**Annwyl riant neu warcheidwad,**

Yn ôl pob tebyg, rydych eisoed yn ymwybodol fod nifer sylweddol o ddisgyblion a staff yn absennol o Ysgol Gymraeg Aberystwyth oherwydd salwch sy'n ymdebygu i'r fflw. Mae'r symptomau nodweddiadol yn cynnwys dolur gwddf, brech, tymheredd uchel, poen clust a chur pen. Gallwn gadarnhau ein bod wedi derbyn nifer uchel o adroddiadau ynghylch y math hwn o salwch ar draws y Sir yn ystod y tymor presennol.

Er mwyn ceisio atal y salwch rhag gwasgaru, rydym yn eich annog i sierhau NAD yw disgyblion sy'n meddu ar y symptomau dan sylw yn dychwelyd i'r ysgol hyd nes eu bod yn rhydd ohonynt. Os ydych chi'n pryderu am iechyd eich plentyn, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu am gyngor meddygol neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 .

Nodwch y caiff unrhyw ddisgyblion sy'n arddangos symptomau yn yr ysgol eu hanfon adref er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ledaenu'r salwch.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

*Dear parent or guardian,*

*As you are probably already aware, there has been a significant report of pupil and staff absence due to flu-type illness at Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Typical reported symptoms include sore throat, rash, high temperatures, ear ache and headaches. We can confirm that generally there has been a high report of this type of illness throughout the County during this term.*

*In order to try to minimise spread, we urge you to ensure symptomatic pupils do NOT return to school until they are symptom free. If you are concerned about your child's health, please seek medical advice from your General Practitioner or call NHS Direct 0845 46 47.*

*Please note any pupils who display any symptoms at school will be sent home in order to reduce any possible spread of the illness.*

*If you require any further information, please do not hesitate to contact the school for further information.*